Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Nefyn
# Y Caban
# Ysgol Gynradd Nefyn
# Ffordd Dewi Sant
# Nefyn
# Gwynedd
# LL53 6EA

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Nefyn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Nefyn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Rhian Parry |
| Person â gofal | Dwynwen Morus Hughes |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Amrediad oedran y plant | 2 oed i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 18 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9yb tan 3yp o ddydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad yn dilyn cofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mai 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 28/06/2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Gwella'r defnydd o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A2 Gwella'r cyfathrebu â rhieni a gofalwyr am brofiadau dysgu a chynnydd y plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae gan blant lais cryf ac maent yn gwneud penderfyniadau deallus am yr hyn maent yn dymuno'i wneud. Maent yn symud yn hyderus ac yn annibynnol o un ardal chwarae i'r llall gan ddewis teganau ac offer priodol yn llwyddiannus. Yn ogystal, maent yn dewis eistedd wrth ochr eu ffrindiau yn ystod amser byrbryd ac maent yn cyfathrebu'n naturiol a hawddgar â'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n hapus ac wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac yn ymgynefino'n gyflym wedi iddynt gyrraedd ar ddechrau sesiwn. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd ati i olchi dwylo yn syth ar ôl cyrraedd, ac mae nifer ohonynt yn gwneud hyn heb anogaeth ymarferwyr. Mae'r ychydig iawn sydd yn ansicr ac yn bryderus, yn ymlacio'n fuan, wedi iddynt dderbyn anogaeth a chysur gan ymarferwyr. Mae bron bob un yn hapus ac yn datblygu'r ymdeimlad o berthyn yn llwyddiannus, gan wybod y bydd ymarferwyr yn gwerthfawrogi eu safbwyntiau a'u barn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn eithriadol o dda. Dywedant 'plîs' a 'diolch' ar eu liwt eu hunain ac maent yn dangos parch at ei gilydd ac at ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymryd eu tro ac yn rhannu adnoddau'n dda. Er enghraifft, maent yn pasio rholiwr toes i'w gilydd yn hapus wrth bwyso siapiau dail a blodau i'r toes. Maent yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'r ymarferwyr ac maent yn hyderus i fynd atynt am gymorth neu gefnogaeth, fel y bo'r angen.

Mae'r rhan fwyaf o blant wedi cychwyn gwneud ffrindiau a ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'u cyfoedion. Er enghraifft, maent yn canmol gwaith peintio eu ffrindiau yn frwdfrydig gydag ansoddeiriau fel 'gwych' a 'lyfli'. Maent yn awyddus i chwarae â'i gilydd ac maent yn sgwrsio'n gyson yn ystod gweithgareddau ac yn ystod amser byrbryd am eu llwyddiannau a sut i dywallt dŵr a llaeth yn ofalus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Er enghraifft, maent yn hapus ac yn frwdfrydig wrth greu gwahanol fathau o fwyd gyda thoes, fel letys a selsig, ac maent yn hyderus wrth ychwanegu perlysiau ffres i'w prydau. Mae eraill yn mwynhau creu diod a bwyd yn y tŷ bach twt. Maent yn mynegi eu mwynhad yn gyson trwy wenu a chwerthin ac wrth gyflwyno eu cynnyrch i ymarferwyr gyda balchder.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol wrth ddefnyddio'r ystod dda o offer a ddarperir ar eu cyfer y tu allan. Maent yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth ddringo, llithro a neidio ar gyfarpar anturus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibynnol yn eithriadol o dda, fel arllwys eu diod a thorri ffrwyth gyda chyllell yn ystod amser byrbryd. Yn ogystal, maent yn tynnu eu esgidiau a gwisgo'u hesgidiau glaw eu hunain yn hyderus, heb lawer o gymorth gan yr ymarferwyr.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae’r holl ymarferwyr yn canolbwyntio’n barhaus ar gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau yn dda ac yn gweithredu holl bolisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn effeithiol. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol gan bob un ohonynt. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau cadarn wrth ddelio ag unrhyw ddamweiniau.

Mae’r holl ymarferwyr wedi cael hyfforddiant diogelu plant, ac maent yn hyderus ynglŷn â sut i weithredu petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ymarferwyr yn ffurfio perthynas waith agos iawn â’r plant ac yn darparu arweiniad a chymorth gofalgar. Maent yn casglu amrediad defnyddiol o wybodaeth gan rieni a gofalwyr am arferion unigol y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o’u hanghenion a’u diddordebau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sydd yn ansicr wrth gyfarfod pobl anghyfarwydd ac yn eu cefnogi i ddatblygu hunanhyder ac ymddiriedaeth ymysg ei gilydd.

Mae’r ymarferwyr yn ymfalchïo yn y cynnydd a wna’r plant, ac maent yn angerddol ynglŷn â darparu’r gofal gorau er mwyn i’r plant ffynnu. Mae'r ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad, ac yn gweithredu fel modelau rôl da. Maent yn gwrando’n astud ar safbwyntiau'r plant, gan ymateb yn ofalus i’w hanghenion. Mae rhyngweithio’r ymarferwyr â’r plant yn gadarnhaol a charedig ac maent yn dangos urddas a pharch tuag at y plant yn gyson. Er enghraifft, maent yn ystyrlon a gwyliadwrus wrth ddelio ag anghenion personol y plant. Yn ogystal, maent yn frwdfrydig wrth ysbrydoli'r plant i ymateb yn egnïol i weithgareddau yn yr ardal allanol, fel llifo dŵr trwy bibellau a chafnau.

Hyrwydda’r ymarferwyr iechyd a lles plant yn effeithiol. Maent yn cael trafodaethau pwrpasol gyda rhieni a gofalwyr am fyrbrydau a diodydd iach a maethlon. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid manwl, ac mae'r arferion wedi eu hymgorffori'n effeithiol yn arferion dyddiol y plant. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol yn llwyddiannus ac yn darparu cyfleoedd cyson i blant ddatblygu agweddau anturus a medrus tuag at ddysgu. Mae gweithdrefnau effeithlon ar gael i gefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan ymarferwyr wybodaeth drylwyr am sut i gyfeirio plant ag anghenion at yr asiantaethau cefnogi perthnasol effeithiol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae’r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ac maent yn cyd-gynllunio’n ddeallus i hybu dysgu’r plant trwy amrywiaeth o heriau ymarferol. Maent yn cynnal trafodaethau synhwyrol gyda’r plant ac mae ganddynt barodrwydd i ddilyn

diddordebau'r plant yn gelfydd. Er enghraifft, caiff y plant gyfleoedd annibynnol i adeiladu tyrau â siapiau tri-dimensiwn a'u herio i lenwi blychau gyda thywod sych a gwlyb, cyn iddynt eu cymharu.

Mae'r ymarferwyr yn cynnal sgyrsiau diffuant gyda'r plant, ac yn cyfuno â'u hasesiadau yn effeithiol, i gynllunio camau nesaf bwriadus yn nysgu plant unigol. Maent yn defnyddio'r asesiadau'n effeithiol i ddarparu gwybodaeth fuddiol am gyflawniadau'r plant i'w rhieni a'u gofalwyr. Gwneir hyn trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn achlysurol, trafodaethau llafar ac mewn llyfrynnau cynnydd.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ac maent yn ymestyn eu dealltwriaeth trwy eu holi'n fedrus wrth chwarae. Gwneir hyn wrth i'r plant beintio pengwiniaid o'r Antarctig yn hyderus a chymysgu lliwiau gwyrdd a melyn i ddarlunio cennin pedr yn ystod dathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Yn ogystal, maent yn cymell y plant yn effeithiol i greu marciau gyda phensil ar lawlyfr wrth gofnodi neges ffôn, a'u hannog i ddidoli a rhifo anifeiliaid y fferm yn yr ardal byd bach. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnig digon o gyfleoedd cyson a rheolaidd i wella medrau digidol cynnar y plant.

Mae addysgu'r ymarferwyr yn llwyddo i ysgogi'r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau. Mae dulliau addysgu cadarn yr ymarferwyr yn annog y plant i gydweithredu'n bwrpasol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Maent yn darparu gweithgareddau difyr, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu medrau gwybyddol da. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i lifo dŵr o un cafn i'r llall ac yn addurno cacennau toes gyda blodau a brigau yn gwbl annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn effeithiol yn ystod gweithgareddau ac maent yn cymell y plant yn ddoeth i arbrofi wrth chwarae, fel cydbwyso bwcedi o ddŵr ar glorian. Maent yn cynnal trafodaethau bwriadus â'r plant ar sut i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn gadael i'r plant daro pegiau i dyllau gyda morthwyl a phenderfynu ar sut i osod y bwrdd â llestri perthnasol i fwydo'u doliau heb ymyrryd.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Maent yn eu hannog i symud cratiau, briciau a darnau pren mawr i adeiladu waliau ac i ddringo a llithro'n hyderus ar gyfarpar anturus. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol fel creu rhythmau gwahanol wrth daro sosbenni, tambwrîn a chlychau yn yr ardal allanol. Yn ogystal, maent yn sbarduno'r plant i gymysgu dŵr a phridd yn y gegin fwd i greu prydau, ac yn eu hannog i chwarae rôl trwy wisgo breichledau a mwclis yn yr ardal gartref.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda trwy ddathlu hanes Santes Dwynwen a hanes yr arfordir lleol. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn dda wrth astudio bwydydd Tsieiniaidd a phatrymau rangoli.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r plant yn derbyn gofal ac addysg mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac yn lân. Mae'r arweinwyr ac ymarferwyr yn ymateb yn bwrpasol i unrhyw risgiau yn brydlon a phwrpasol er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Er enghraifft, maent yn cynnal

gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod y cyfarpar allanol yn cyfateb i ofynion diogelwch perthnasol.

Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch a'r gofynion sydd arnynt i gynnal driliau tân rheolaidd. Mae'r safle'n ddiogel ac ni all ymwelwyr fynd at unrhyw ran o'r lleoliad mewnol oni bai fod ymarferwyr yn rhoi mynediad iddynt. Mae'r lleoliad yn rhannu ardal allanol gyda'r ysgol, ac mae ganddynt ardal amgaeëdig yn y cae chwarae, sydd yn benodol iddyn nhw. Mae'r ardal hon yn gaeëdig, gyda ffens allanol yn rhwystro unrhyw blentyn adael y safle heb oedolyn. Yn ogystal, mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer arwain y plant yn ddiogel i'r ardal allanol.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar a chyfeillgar. Mae cynllun yr amgylchedd a'r adnoddau yn cynnig cyfleoedd chwarae a dysgu cyfoethog. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r ystafell i ddarparu ardaloedd chwarae a dysgu symbylus i'r plant. Maent yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddefnyddio'r cyfarpar a'r adnoddau yn annibynnol, fel yn yr ardal chwarae rôl a'r ardal dywod, sy'n cynnig gweadau gwahanol a thywod sych a gwlyb.

Ceir amrywiaeth difyr o adnoddau sydd o fewn cyrraedd y plant ymhob ardal, gan gynnwys adnoddau sy'n hybu ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal. Er enghraifft, mae doliau a nifer o lyfrau darllen o wahanol ddiwylliannau ar gael. Yn ogystal, darperir nifer fawr o adnoddau naturiol fel boncyffion coed, reis, pasta a botymau sy'n hybu creadigrwydd y plant yn llwyddiannus. Mae'r ardal chwarae rôl yn cynnwys llestri go iawn, sy'n hybu ymwybyddiaeth y plant a'r angen i barchu a gofalu am yr adnoddau.

Mae'r amgylchedd allanol yn cynnig gofod helaeth â chyfleoedd cyffrous i blant chwarae a dysgu yn yr awyr iach. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn creu ardaloedd dysgu anturus. Er enghraifft, mae'r teiars ceir yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus i dyfu blodau a pherlysiau. Yn ogystal, mae ardaloedd defnyddiol ar gael i blant ddatblygu eu medrau synhwyraidd drwy chwarae â deunyddiau gwahanol fel cerrig mân a darnau o lechi. O ganlyniad, mae'r adnoddau tu mewn a thu allan o ansawdd uchel iawn, yn lân ac yn hawdd eu cyrraedd, sy'n galluogi'r plant i wneud dewisiadau synhwyrol wrth chwarae a dysgu'n annibynnol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gweledigaeth gadarn yr arweinwyr ynglŷn â sicrhau darpariaeth effeithiol yn galluogi ymarferwyr i weithredu'n hyblyg a phwrpasol, i wella deilliannau'r plant. Mae arweinwyr wedi sefydlu strategaethau arwain bwriadus, sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar gynnig profiadau dysgu difyr i ddatblygu lles a dysgu'r plant. Mae agweddau cadarnhaol yr holl ymarferwyr yn hybu cydweithio effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn rhannu'r weledigaeth gytûn o greu amgylchedd diddorol, sy'n arwain at gwricwlwm ac addysgu o safon uchel.

Mae'r arweinwyr yn galluogi'r ymarferwyr i fynychu hyfforddiant pwrpasol i wella'u gwybodaeth a'u harferion gofal. Yn ogystal, maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel, ac yn gosod disgwyliadau synhwyrol i gefnogi'r ymarferwyr i gynnal safonau uchel. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn gydwybodol ac yn awyddus i lwyddo, trwy fabwysiadu awgrymiadau'r arweinwyr a swyddogion yr asiantaethau cefnogi.

Mae’r arweinwyr yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso effeithlon, sy’n arwain at dargedau defnyddiol ar gyfer gwelliant. Mae’r rhain yn canolbwyntio ar gyflwyno gwelliannau cyson i ddatblygu arferion y lleoliad ymhellach. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau’r lleoliad a’r materion i’w gwella yn dda. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi canolbwyntio ar wella’r cyfleoedd i ddatblygu creadigrwydd y plant yn y ddarpariaeth barhaus.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy’n ymwneud â’r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau effeithiol â’r holl randdeiliaid, fel yr asiantaethau cefnogi, i wella’r ddarpariaeth a phrofiadau’r plant. Er enghraifft, maent yn gweithredu ar gyngor i ddatblygu’r arferion cynllunio, er mwyn dilyn diddordebau’r plant yn well. Yn ogystal, maent wedi gwrando ar awgrymiadau’r rhieni a’r gofalwyr i wella’r cyswllt rhwng y lleoliad a’r cartref. Fodd bynnag, er bod y defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn weithredol, nid yw'n gwbl effeithiol wrth ddarparu gwybodaeth gyfredol am brofiadau a chynnydd y plant i'w rhieni a'u gofalwyr.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau gofal bugeiliol llwyddiannus i’r plant, sy’n creu ymdeimlad o berthyn ymysg y plant a’r oedolion. Mae’r awyrgylch gadarnhaol hon yn cymell y plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu. Mae’r berthynas gynhyrchiol â’r ysgol yn atgyfnerthu dealltwriaeth y plant o’u cynefin ac yn eu paratoi tuag at y cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol. Yn ogystal, mae’r arweinwyr wedi ffurfio ystod o bartneriaethau cadarn yn lleol, sy’n cynnig profiadau difyr i’r plant. Er enghraifft, mae’r plant yn mynychu’r siopau lleol i brynu nwyddau ac ymweld â llyfrgell a fferyllfa’r dref.

Mae’r arweinwyr yn dyrannu adnoddau’n llwyddiannus. Maent yn defnyddio’r gyllideb yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r lleoliad yn ddeallus. Er enghraifft, mae’r defnydd o grantiau yn dda ac maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn ddoeth, fel y tŷ bach twt, y gegin fwd a chyfarpar anturus yn yr ardal allanol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/08/2022